# JONES, THOMAS (1860 - 1932), bardd a llenor

**Enw:** Thomas Jones
**Dyddiad geni:** 1860
**Dyddiad marw:** 1932
**Priod:** Mary Jones (née Jones)
**Plentyn:** Menna Phillips (née Jones)
**Rhiant:** Margaret Jones
**Rhiant:** Thomas Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd a llenor
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth
**Awdur:** Evan Roberts

Ganwyd yn Tynygors, Nantglyn, sir Ddinbych, 10 Mehefin 1860, mab Thomas a Margaret Jones - y fam yn ferch Tynygors, a'r tad yn fab Llidiard-y-gwartheg, Cerrig-y-drudion. Magwyd gyda'i daid a'i nain, gan symud i Tai Isaf (1872). Cafodd hanner blwyddyn o ysgol ym Mhentrefoelas, a dau hanner yn Cerrigydrudion. Priododd Mary, merch Elin ac Abel Jones, Llanfihangel, fis Rhagfyr 1882, gan fyw yn Tai Isaf hyd 1897, Bryndu, 1912, a Cerrigellgwm nes y bu farw yn ysbyty Dinbych, 31 Hydref 1932, a'i gladdu yng Ngherrig-y-drudion, 2 Tachwedd, yn 72 oed.

Yr oedd yn fardd swynol - baledwr yn bennaf; enillodd gadeiriau, a bu'n feirniad droeon. Enillodd brif draethawd eisteddfod Corwen (1929). Cyhoeddodd *Caneuon*, 1902, *Beirdd Uwchaled*, 1930, a *Pitar Puw*, 1932. Ysgrifennodd 'hanes' John Jones, Glanygors i arg. 1923 o *Seren Tan Gwmwl*, a cheir peth o'i weithiau yn *Cymru (O.M.E.)*, *Gen.*, *Yr Haul*, etc. Yr oedd yn awdurdod ar 'osod' i ganu penillion telyn.

## Awdur

**Evan Roberts**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Baner ac Amserau Cymru*, 8 Tachwedd 1932

*Beirdd Ein Canrif detholiad o farddoniaeth i'r ysgolion* (Aberystwyth 1934), 1, xiii

Thomas Jones, (rhagymadrodd gan T. Gwynn Jones), *Pitar Puw a'i Berthynasau* (Aberystwyth 1932)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66256386

Wikidata: Q20734486


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu